

## **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Cynghorau Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Sefydliadau Bridio Cŵn – Amodau Trwydded**

### **1. Gwella a Chyfoethogi**

**1.1** Rhaid i ddeiliad y drwydded weithredu rhaglen wella a chyfoethogi y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei chymeradwyo.

### **2. Cymdeithasoli**

**2.1** Rhaid i ddeiliad y drwydded weithredu rhaglen gymdeithasoli y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei chymeradwyo.

### **3. Iechyd**

**3.1** Rhaid i Ddeiliad y drwydded gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu pob ci rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

### **4. Atgenhedlu**

**4.1** Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod gast fridio -

- DDIM yn mynd at gi tan y mae o leiaf 12 mis oed
- DDIM yn esgor mwy nag un thorllwyth o gŵn bach mewn unrhyw gyfnod 12 mis; a
- DDIM yn esgor cyfanswm o fwy na chwe thorllwyth.

### **5. Newid perchnogaeth ar gi bach**

**5.1** Rhaid i'r ci bach aros ar y safle sydd ym meddiant deiliad y drwydded ac yn eiddo i hwnnw tan bydd y ci bach o leiaf 56 diwrnod oed.

## **6. Gofynion cofnodion yr ast fridio**

**6.1** Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw cofnod ysgrifenedig mewn perthynas â phob gast fridio, a nodi:

- a) Ei henw
- b) Ei dyddiad geni
- c) Ei brid
- d) Disgrifiad corfforol ohoni, yn cynnwys ei lliw ac unrhyw nodweddion unigryw
- e) Statws ei hiechyd, yn cynnwys cofnodion brechu
- f) Ei manylion atgenhedlu, yn cynnwys:
  - I. Mewn perthynas â'r tad, yr wybodaeth y mae ei hangen yn ôl is-baragraff 6.1 (a-e)
  - II. Mewn perthynas â phob ci bach a enir -
    - Ei ddyddiad geni
    - Pan drosglwyddir y berchnogaeth, enw'r perchennog newydd a'i gyfeiriad.

**6.2** Pan drosglwyddir perchnogaeth gast fridio, rhaid i ddeiliad y drwydded gofnodi enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog newydd ar y cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff 6.1 a rhaid rhoi copi o'r cofnod i'r perchennog newydd a rhaid i ddeiliad y drwydded gadw un.

**6.3** Rhaid i'r cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff 6.1 fod ar gael i'w archwilio bob amser a rhaid i ddeiliad y drwydded ei gadw hyd oes yr ast fridio.

## **7. Gofynion cofnodion cŵn bach**

**7.1** Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal cofnod ysgrifenedig yn cadarnhau'r manylion canlynol mewn perthynas â phob ci bach sydd yn y safle ym meddiant deiliad y drwydded:

- a) Rhyw
- b) Dyddiad geni
- c) Brid
- d) Disgrifiad corfforol, yn cynnwys y lliw ac unrhyw nodweddion unigryw
- e) Statws iechyd, yn cynnwys cofnodion brechu
- f) Mewn perthynas â'r fam, yr wybodaeth sy'n ofynnol dan amod 6.1 (a – e); ac
- g) Mewn perthynas â'r tad, yr wybodaeth sy'n ofynnol dan amod 6.1 (a – e).

**7.2** Pan drosglwyddir perchnogaeth y ci bach, rhaid i ddeiliad y drwydded gofnodi enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog newydd ar y cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff 6.1 a rhaid rhoi copi o'r cofnod i'r perchennog newydd a rhaid i ddeiliad y drwydded gadw un.

**7.3** Rhaid i'r cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff 6.1 fod ar gael i'w archwilio gan yr awdurdod lleol ar unrhyw adeg a rhaid i ddeiliad y drwydded ei gadw am 3 blynedd o ddyddiad geni'r ci bach.

## **Rheoliad 8 (2) (b)**

### **8. Adnewyddu grantiau trwyddedau – Uchafswm cŵn a gedwir**

**8.1** Amod yn manylu uchafswm nifer y cŵn maint llawn a'r cŵn bach y gellir eu cadw dan delerau'r drwydded.

## **Rheoliad 8 (2) (c)**

### **9. Rhoi neu adnewyddu trwyddedau – Cyfradd staff i gŵn**

**9.1** Amod yn manylu cyfradd aelod staff i gŵn, y mae'n rhaid ei sicrhau fel lleiafrif nifer y staff.

- 1 x gofalwr llawn amser ar gyfer 20 ci maint llawn a gedwir; neu
- 1 x gofalwr rhan amser ar gyfer 10 ci maint llawn a gedwir.

## Rheoliad 8 (3)

### 10. Maint o letyau

10.1 Dyma'r gofynion isafswm maint ar gyfer:

#### Cŵn maint bychan

Nifer y Cŵn	Mynediad rhydd i ymarfer	Mynediad cyfyngedig i ymarfer
1	2.5 m sg.	4.5 m sg.
2	2.5 m sg.	4.5 m sg.
3	4.5 m sg.	6.5 m sg.
4	6.0 m sg.	8.5 m sg.

#### Cŵn maint canolig

Nifer y Cŵn	Mynediad rhydd i ymarfer	Mynediad cyfyngedig i ymarfer
1	2.5 m sg.	4.5 m sg.
2	4.5 m sg.	6.5 m sg.
3	6.0 m sg.	8.5 m sg.

#### Cŵn maint mawr

Nifer y Cŵn	Mynediad rhydd i ymarfer	Mynediad cyfyngedig i ymarfer
1	4.5 m sg.	6.5 m sg.
2	6.0 m sg.	8.5 m sg.

### Canllaw

Maint y cŵn: Bychan – Cŵn Smwt, Bichon Frise, Daeargwn

Canolig – Sbaengwn, Cŵn defaid barfog, Corhelgwn

Mawr – Cŵn labrador, cŵn bocser

- Ystyr mynediad rhydd i ymarfer ydy bod gan y cŵn fynediad heb gyfyngiad bob dydd i'r ardal ymarfer
- Ystyr mynediad cyfyngedig i ymarfer ydy bod gan y cŵn fynediad cyfyngedig bob dydd i'r ardal ymarfer

- Dylai'r cynel fod yn ddigon mawr i adael i bob ci allu cerdded, troi a chwifio ei gynffon heb gyffwrdd yr ochrau, chwarae, sefyll ar ei goesau ôl a gorwedd heb gyffwrdd unrhyw un arall.
- Pan fo'r anifail/anifeiliaid yn y cynel, dylai fod digon o le i'r drws agor yn llawn.
- Dylid rhoi dwbl y gofod hwn i eist â thorllwythi.

## **11. Cyfleusterau bwrw cenau**

**11.1** Rhaid rhoi ardal neu genal i bob gast cyn iddi fwrw cenau, gyda blwch/gwely bwrw.

**11.2** Rhaid i gyfleusterau gwresogi fod yn ddigonol, sicr, diogel, a gallu darparu ystyr o dymereddau, sy'n addas ar gyfer cŵn bach a geist.

**11.3** Rhaid cynnig ardal lle gall gast orffwys draw oddi wrth ei chŵn bach.

### **Canllaw**

- Ar y cyfan, rhaid lletya geist gyda chŵn eraill mewn pâr neu grŵp ond dylid eu cadw ar eu pennau eu hunain am ychydig dyddiau cyn iddi fwrw cenau. Fodd bynnag, dylent barhau i allu gweld, clywed ac aroglu geist cyfarwydd eraill a chael cysylltiad dyddiol gyda phobl.
- Dylai'r ardal/cynnal bwrw fod yn addas ar gyfer uchafswm nifer y cŵn, maint y brid a'r torllwyth. Er mwyn osgoi gwasgu'r cŵn bach, gall clwydi atal fod yn ddefnyddiol.
- O dua 3 diwrnod wedi'r geni, dylid rhoi cyfnodau byr o ymarfer i'r geist, heb eu torllwythi.
- Dylid archwilio geist sydd ar fin esgor yn rheolaidd. Pan fônt yn esgor, dylid monitro geist yn agos ac os oes unrhyw arwydd o anhawster, dylid cysylltu â milfeddyg ar frys. Dylai cyswllt fod ar gael yn hawdd ar gyfer cymorth milfeddyg.

## **12. Goruchwyllo**

**12.1** Os yw deiliad y drwydded yn absennol am beth amser, dylai person addas a chymwys sydd o leiaf 16 oed oruchwyllo'r safle.

**12.2** Rhaid i'r rhai sy'n goruchwyllo fod â gwybodaeth drylwyr a manwl am yr amodau trwyddedu a chydymffurfio â nhw bob amser.

**12.3** Rhaid i'r trwyddedai fyw yn agos at y safle trwyddedig er mwyn iddo allu mynd yno yn brydlon bob amser.

**12.4** Dylid ymweld â'r cŵn yn rheolaidd yn ôl yr angen i sicrhau eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles ac atal unrhyw ddiodefaint diangen.

**12.5** Rhaid i'r ymweliadau hyn fod o leiaf deirgwaith y dydd.

### **Canllaw**

- Dylai fod gan unrhyw un sy'n goruchwyllo'r cŵn wybodaeth ddigonol a phrofiad i allu trin y cŵn yn gywir a diogel. Rhaid iddynt hefyd allu cydnabod a yw ymddygiad ci yn awgrymu bod problem, ac yna weithredu'n briodol.
- Dylai fod pob bridiwr ac aelod staff yn cael mynediad at y Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall a dylent fod yn gyfarwydd â nhw.
- Dylai bod ganddynt wybodaeth weithiol o fridio cŵn a dylent fod yn ymwybodol o arfer dda a nodwedd(ion) y bridiwr/wyr yn y sefydliad.

## **13. Statws Iechyd Cŵn**

**13.1** Dylid cynnal archwiliadau corfforol ar bob anifail ar y safle i chwilio am unrhyw arwydd i afiechyd, anaf neu drafferthion.

**13.2** Dylai cŵn a geist bridio fod yn gorfforol ac ymddygiadol iawn.

**13.3** Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol bod milfeddyg y trwyddedau yn cadarnhau bod unrhyw anifeiliaid bridio yr ymddengys i'r swyddog archwilio/trwyddedu eu bod yn dangos nodweddion etifeddol neu ymddygiadol ansicr yn iawn. Rhaid cael cyngor milfeddyg heb oedi os yw ci yn dangos arwyddion o afiechyd, anaf, salwch neu anhwylder ymddygiadol a chofnodi hynny yn llyfr cofnodion y ci a'i roi ar gael i brynwyr posibl.

### **Canllaw**

- Nid yw anifeiliaid bridio sy'n dangos arwyddion o ofn neu bryder fel arfer yn gwneud rhieni da.
- Dylai cŵn bach fod yn epil rhieni iach, cymdeithasol ac amgylcheddol gymwys.

## **14. Adnabod Cŵn**

**14.1** Rhaid i berson cymwys roi meicrosglodyn mewn cŵn a geist bridio a'u cofrestru ar gronfa ddata cenedlaethol gydnabyddedig.

**14.2** Rhaid i'r trwyddedai gwblhau Cofnod Gast Fridio a Llyfr Cofnodion Ci Bach ar y ffurf a nodir yng Nghanllaw Gweinidogion Cymru neu ar ffurf arall sy'n ailadrodd yr wybodaeth hon.

**14.3** Ar ôl i'r cŵn adael y safle trwyddedig, rhaid cadw cofnod am o leiaf 24 mis a rhaid iddynt fod ar gael ar gais unrhyw swyddog ag awdurdod.

### **Canllaw**

- Cyfeiriwch at Atodlen 1 Canllaw Gweinidogion Cymru am enghraifft o Gofnod Gast Fridio.
- Cyfeiriwch at Atodlen 2 Canllaw Gweinidogion Cymru am enghraifft o Lyfr Cofnodion Ci Bach.

## **15. Bridio Cyfrifol**

**15.1** Ni ddylid bridio unrhyw anifeiliaid sy'n dangos nodweddion etifeddol neu ymddygiadol ansicr.

**15.2** Wrth fridio croesfridiau yn fwriadol, dylai bridwyr ystyried addasrwydd y bridiau ar gyfer rhwyddineb bwrw cenau a chynhyrchu cŵn bach iach.

### **Canllaw**

- Dylai trwyddedeion fod yn gyfarwydd â'r profion sgrinio iechyd sydd ar gael i'w bridiau dewis, mewn ymgynghoriad â'u milfeddyg eu hunain.
- Diffiniad croesfrid ydy epil dau neu ragor o fridiau o gŵn cydnabyddedig.
- Dylid ystyried yn ofalus bridio anifeiliaid sy'n perthyn yn agos.
- Mae enghreifftiau o fridio agos yn cynnwys bridio rhwng brawd a chwaer, tad a merch, mam a mab, teidiau/neiniau ac wyresau/wyrion neu hanner brodyr a chwiorydd.

### **16. Strategaeth ar gyfer ymddeoliad geist a chŵn bridio.**

**16.1** Bydd yr holl eist a chŵn bridio a gedwir yn y safle trwyddedig yn parhau i fod ar y drwydded.

**16.2** Rhaid bod gan fridwyr gynllun (ar ffurf ysgrifenedig yn ddelfrydol) ar gyfer trin cŵn wedi ymddeol.

**16.3** Os yw gast fridio yn ymddeol oherwydd ei bod wedi cynhyrchu uchafswm swm y torllwythi (6), cyfrifoldeb y trwyddedau fydd cael cyngor milfeddyg ar iechyd yr ast ac a ddylid ei dirywio cyn trosglwyddo perchnogaeth. Dylid dogfennu'r cyngor hwn a'i gofnodi gyda chofnodion yr ast fridio.

### **Canllaw**





- Dylai bridwyr gynllunio ar gyfer ymddeoliad eu cŵn bridio. Os yw'r ymddeol yn cynnwys ail-gartrefu i amgylchedd cartref, rhaid i'r cŵn fod mewn rhaglen o symbyliad yn ystod eu bywyd gwaith, sydd wedi ei chynllunio er mwyn cynnal eu cymdeithasoli gyda phobl a'u gallu i fod mewn amgylchedd cartref.

## **17. Newid mawr yn y safle trwyddedig**

**17.1** Rhaid i'r trwyddedai roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu cyn gwneud unrhyw newid mawr yn y safle trwyddedig.

### **Canllaw**

- Gall 'newid mawr' gynnwys pethau fel adeiladu cynelau newydd, cynyddu nifer y cŵn yn sylweddol, gostwng y staff yn y cynelau a.y.b.

## **18. Prawf iechyd Blynyddol**

**18.1** Mae'n ofynnol gan yr awdurdod trwyddedu fod y trwyddedau yn cael milfeddyg i brofi ei eist a chŵn bridio bob blwyddyn. Bydd y milfeddyg yn cwblhau adroddiad iechyd a lles ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion y cŵn mae wedi eu hymchwilio.

**18.2** Bydd yr adroddiad yn cynnwys manylion iechyd a lles y cŵn a bydd yn nodi a yw'r cŵn yn addas ar gyfer eu defnyddio yn y sefydliad bridio ai peidio. Caiff yr adroddiad hwn ei roi i'r awdurdod trwyddedu ar adeg gwneud y cais am drwydded.

**18.3** Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn asesiad o'r cŵn gan filfeddyg ar gyfer yr adroddiad iechyd a lles os gwnaed yr asesiad dros dri mis cyn dyddiad cychwyn y drwydded.

**18.4** Os yw'r milfeddyg wedi gwneud argymhellion yn yr adroddiad, caiff y rhain eu hystyried fel gofynion hanfodol os gallant effeithio ar iechyd, lles neu ddiogelwch y cŵn.

## **19. Cynllun ar gyfer safleoedd trwyddedig ac arddangos y drwydded.**

- 19.1** Rhaid i'r trwyddedau gyflwyno cynllun addas sy'n dangos amlinelliad yr adeiladau, cynllun y cynelau, yr iard ymarfer ac unrhyw adeilad arall sy'n berthnasol i'r safle trwyddedig.
- 19.2** Rhaid arddangos cynllun gadael mewn argyfwng yn cynnwys y llwybr gadael bob amser.
- 19.3** Rhaid arddangos y drwydded gyfredol yn y safle gyda'r cynllun gadael mewn argyfwng a'r dystysgrif yswiriant.

### **Canllaw**

- Gellir tynnu llun y cynllun â llaw ond rhaid iddo fod ar raddfa fras ag adeiladau eraill; Rhaid nodi'r amlinellau ar y cynllun. Rhaid i'r cynllun gynnwys enw'r safle, y dyddiad ac enw'r person a'i tynnodd/creodd.

